**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**27 EBRILL 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 27 Ebrill 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mel Buckley, Tina Claydon, Carol Ellis, Gladys Healey, David Mackie, Debbie Owen a Linda Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Rob Davies (Marion Bateman) a Teresa Carberry (Paul Cunningham)
*Bydd y Cynghorydd Marion Bateman yn cymryd lle'r Cynghorydd Rob Davies ym mhob cyfarfod yn y dyfodol*

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu; Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu; Uwch Reolwr Oedolion; Rheolwr Comisiynu; a Swyddog Cynllunio a Datblygu

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 58. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 59. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) wrth yr aelodau fod Cynllun y Cyngor wedi ei ystyried eisoes gan Bwyllgorau eraill y Cyngor, yn ogystal â'r Cabinet, ac yr oedd eu barn yn amodol ar unrhyw sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor hwn. Cytunwyd ar strwythur lefel uchel Cynllun y Cyngor 2023-28 ym mis Hydref 2022, ac mae'n cynnwys saith blaenoriaeth, amcanion lles a nifer o is-flaenoriaethau.

Rhoddodd gipolwg ar y blaenoriaethau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, sef:

- Byw'n Annibynnol
- Diogelu
- Darpariaeth Uniongyrchol i gefnogi pobl yn agosach i'w cartrefi
- Strategaeth Dementia Lleol
- Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da

Wrth ymateb i'r Cadeirydd, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn gwybod am unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio safle Tri Ffordd, ac yr oedd yn ansicr a oedd penderfyniad wedi ei wneud, ond credai ei fod ym mherchnogaeth Cyngor Sir y Fflint, a chadarnhaodd y byddai Mocking Bird yn parhau i fod yn rhan o'r cynlluniau allweddol o ran gwasanaethau maethu.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am eglurhad pam oedd ffigyrau targed yn is na'r ffigyrau sylfaenol yn yr adroddiad, a rhoddodd nifer o enghreifftiau. Cytunodd y Prif Swyddog y byddai'n adolygu'r ffigyrau lle'r oedd targedau'n is na'r data sylfaenol gyda'i dîm, ac y byddai'n dosbarthu'r ffigyrau i Aelodau'r Pwyllgor erbyn diwedd yr wythnos. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ellis, cytunodd y Prif Swyddog y dylai targedau fod yn heriol, a dywedodd eu bod wedi eu gosod ganddo ef a'i dîm, gyda barn a geisiwyd gan y Pwyllgor a chydweithwyr corfforaethol.

Cafodd yr argymhelliad yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Ellis a'r Cynghorydd Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi dogfennau Rhan 1 a 2 Cynllun y Cyngor 2023-28 sy'n amlinellu'r camau gweithredu, y mesurau a'r risgiau sy'n sail i flaenoriaethau, is-flaenoriaethau ac amcanion lles Cynllun y Cyngor 2023-28, yn amodol ar adolygu'r targedau a dosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor.

## 60. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Eglurodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu fod yr Adroddiad Blynyddol yn ofyniad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Eglurodd fod yr adroddiad y maent yn gweithio arno ar hyn o bryd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 ac Ebrill 2023, a'i fod yn nodi siwrnai'r Cyngor tuag at welliant dros y cyfnod hwnnw a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a byddai'n cael ei gyhoeddi yn yr un fformat ag adroddiad 2021/22. Dywedodd wrth yr Aelodau eu bod yn disgwyl am fwy o wybodaeth ond yn ôl pob tebyg byddai'r canllawiau'n newid, felly gall fformat adroddiad y flwyddyn nesaf edrych yn wahanol iawn i rai'r blynyddoedd diwethaf. Dywedodd y cyflwynid yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor hwn ar 8 Mehefin 2023, unwaith y bydd wedi ei baratoi, gyda'r nod o'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2023 yn barod i'w gyhoeddi a bod ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a Saesneg ym mis Medi 2023.

Eglurodd y Rheolwr Comisiynu bryderon yr Aelodau drwy ddweud nad oedd y cyfarfod heddiw'n adrodd am flaenoriaethau blaenorol. Yn hytrach, y nod oedd cadarnhau a oeddynt yn fodlon bod blaenoriaethau a nodwyd gan y Portffolio wrth symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn gywir cyn iddynt gael eu nodi'n ysgrifenedig yn yr un fformat â'r blynyddoedd cynt gan ddefnyddio'r penawdau a gynigiwyd, a oedd yn defnyddio themâu'r asesiad o anghenion y boblogaeth, pobl hŷn, gofalwyr, plant a phobl ifanc, ac ati. Ailadroddodd yr hyn yr oedd y Swyddog Cynllunio a Datblygu wedi ei ddweud ynglŷn â chyflwyno'r adroddiad drafft yn y cyfarfod ym mis Mehefin er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo. Byddai wedi ei lunio'n eglur ac yn nodi'r hyn yr oeddynt wedi ei gyflawni ochr yn ochr â blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond pwysleisiodd mai dim ond hyd at yr amser pan fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf y gellid gwneud diwygiadau, er mwyn cyrraedd y dyddiad cau ar gyfer ei gyhoeddi. Eglurodd y byddai blaenoriaethau eraill yn dod i'r amlwg drwy arferion gwaith arferol, a byddent yn ôl pob tebyg yn cael eu nodi yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Claydon.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau, yn dilyn adolygiad, yn cymeradwyo amlinelliad a blaenoriaethau'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf, a chyflwyno drafft terfynol i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.

**61. TALIADAU UNIONGYRCHOL AR GYFER GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION, ARCHWILIO CYMRU**

Cyflwynodd Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu yr adroddiad, gan bwysleisio ei fod yn archwiliad o ddarpariaeth taliad uniongyrchol gyffredinol ym mhob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru, wedi ei ysgrifennu gan Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2022, ac nid yw'n adroddiad ar Daliadau Uniongyrchol yng Ngwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Sir y Fflint. Eglurodd fod yr adroddiad yn ymchwilio i'r ffordd yr oedd taliadau uniongyrchol wedi cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, cynnal lles pobl, a sut oeddynt wedi gwella ansawdd bywyd pobl. Pwysleisiodd, er bod yr adroddiad yn un cyffredinol mewn rhai ffyrdd, yr oedd yn benodol mewn ffyrdd eraill, ac aeth drwy ymateb Sir y Fflint i'r 10 argymhelliad fel y'u nodir yn yr adroddiad.

Ymatebodd Uwch Reolwr Oedolion i fater a godwyd gan y Cadeirydd yn ymwneud â'r stigma ynghylch taliadau uniongyrchol drwy ddweud bod hwn yn ddarn o waith a oedd yn mynd rhagddo'n barhaus, a oedd yn uchel ar eu hagenda, a'u bod ar hyn o bryd yn pwyso er mwyn i ofalwyr dderbyn y taliadau uniongyrchol drwy eu hawl eu hunain i'w galluogi i barhau i ddarparu cefnogaeth i'w hanwyliaid. Dywedodd hefyd ei bod yn y broses o egluro ledled yr awdurdod sut y gellid defnyddio taliadau uniongyrchol yn enw'r gofalwr, gan eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig i'r unigolyn gael y gefnogaeth y mae ei hangen gan y person yr hoffent dderbyn y gefnogaeth ganddo.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie nad oedd Archwilio Cymru wedi cydnabod yn yr adroddiad y gwaith yr oedd Sir y Fflint wedi ei wneud, a dywedodd y dylent fod wedi cyflwyno rhai o'r prosesau a ddatblygwyd gan staff Sir y Fflint i ddangos y dull gweithredu gorau i gynghorau eraill, gan nad oedd un datrysiad yn addas ym mhob achos. Ymatebodd Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu ac ychwanegu at sylw pellach gan y Cynghorydd Ellis ynglŷn â symlrwydd y system a oedd gan Sir y Fflint ar waith. Nid oedd yn gallu gwneud sylw ynglŷn â'r hyn yr oedd awdurdodau eraill yn ei wneud, ond dywedodd fod yna ddiddordeb – yr oedd awdurdodau eraill wedi cysylltu â Sir y Fflint ynglŷn â'i systemau, prosesau a thudalennau gwe. Dywedodd mai'r hyn a wnaeth y tîm drwy wrando a gweithredu ar adborth gan dderbynwyr taliadau uniongyrchol oedd yn gyfrifol am lwyddiant y gwasanaeth. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod Awdurdod yng ngogledd Cymru wedi cysylltu ag ef hefyd, gan ddangos diddordeb mewn defnyddio eu porth taliadau uniongyrchol.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Buckley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau'n nodi'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion;

(b) Bod yr Aelodau'n cytuno ar y camau gweithredu yn Ymateb Sir y Fflint i'r adroddiad cenedlaethol; a

(c) Bod yr Aelodau'n nodi bod Cyngor Sir y Fflint yn disgwyl ymateb gan Archwilio Cymru i'w hadborth.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigiwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd gan y Cynghorydd Buckley, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd paragraff(au) 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**62. LLEOLIADAU PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu a oedd yn ymdrin â'r ystod o leoliadau lle cefnogid plant sy'n derbyn gofal a'r trefniadau pwrpasol a oedd yn eu lle ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd y swyddogion i gwestiynau gan yr Aelodau.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u diwygiwyd, eu cynnig gan y Cynghorydd Buckley a'u heilio gan y Cynghorydd Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn sicr o'r dull gweithredu yn y trefniadau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal; a

(b) Bod adroddiad Rhan 2 pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol, yn cynnwys canlyniad yr adolygiad a'r effaith ar arferion polisi lleol Cyngor Sir y Fflint.

**63. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 10.55am)

..............................

**Y Cadeirydd**